Cronfeydd Trawswladol

Yn ychwanegol i'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, mae gan Gymru fynediad hefyd at nifer o raglenni cyllido Ewropeaidd eraill. Fel arfer ar gyfer y rhain mae angen i fudiad gydweithio ag eraill o wledydd gwahanol. Yn wahanol i'r Cronfeydd Strwythurol nid yw'r mwyafrif yn cael eu gweinyddu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ond gan ysgrifenyddiaethau sy'n gweinyddu'r cyllid ar ran y Comisiwn.

Rhestrir isod rai o'r rhaglenni cyllido trawswladol sydd o ddiddordeb arbennig i'r trydydd sector yng Nghymru.

ERASMUS+

Beth yw hi?
Erasmus+ yw'r rhaglen Ewropeaidd ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon.

Beth mae'n ei ariannu?
Cyfnewidfeydd, lleoliadau gwaith a phrosiectau arloesol i wella arferion a dylanwadu ar bolisïau.

Pwy all ymgeisio?
Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (megis mentrau cymdeithasol, mudiadau dielw a mentrau bach a chanolig).

ASTUDIAETH ACHOS PROSIECT ERASMUS+: CLYBIAU BECHGYN A MERCHED CYMRU

Mae Clybiau Bechgyn a Merched Cymru wedi bod yn ymgymryd â gwaith ieuenctid ers 85 mlynedd. Maent yn cynnal prosiect dan raglen Erasmus+ o'r enw 'Not the Usual Suspects', sy'n canolbwyntio ar gynnwys ieuenctid sydd wedi'u tangynrychioli mewn fforymau traddodiadol gyda gwleidyddion o wahanol haenau o benderfyniadau (megis Cynghorwyr lleol, Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol ayyb).

Cynhaliwyd digwyddiad ganddynt yn ddiweddar o'r 'Not the Usual Hustings' a oedd yn cynnwys grŵp o bobl ifanc 16-18 mlwydd oed. Bu iddynt gwrdd a chyfweld â gwleidyddion a thrafod pynciau o ddiddordeb, codi materion perthnasol ac egluro eu barn a'u syniadau eu hunain. Trwy hyn, datblygodd y grŵp sgiliau TGCh, sgiliau golygu fideo, sgiliau cyfweld, sgiliau meithrin tîm a sgiliau datrys problemau o

ganlyniad i gynllunio'r digwyddiad a'i gynnal.
Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar y grŵp o 30 o bobl ifanc, trwy gynlluniau lledaenu sy'n cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chreu maniffesto pobl ifanc, rhagwelir y bydd dros 3000 o bobl ifanc yn elwa'n anuniongyrchol o'r prosiect hwn, o gofio rhwydwaith eang y mudiad.

IWERDDON CYMRU

Beth yw hi?
Nod rhaglen Iwerddon Cymru yw:

- cefnogi cydweithio rhwng mudiadau ymchwil a mentrau bach a chanolig
- cynyddu galluedd a gwybodaeth ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd
- cefnogi cynaliadwyedd asedau naturiol a diwylliannol

Rhaid i bob prosiect fynd i'r afael â heriau sy'n gyffredin ar y ddwy ochr i fôr Iwerddon.

Pwy all ymgeisio?
Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (megis mentrau cymdeithasol, mudiadau dielw a mentrau bach a chanolig).

INTERREG EWROP

Beth yw hi?
Nod rhaglen Interreg Ewrop yw:

- helpu mentrau bach a chanolig i ddatblygu a thyfu
- cefnogi ymchwil ac arloesedd, yn enwedig ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg
- creu economi rad ar garbon, er enghraifft, drwy wella effeithiolrwydd o ran ynni
- gwarchod yr amgylchedd a gwella effeithiolrwydd o ran adnoddau

Pwy all ymgeisio?
Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (megis mentrau cymdeithasol, mudiadau dielw a mentrau bach a chanolig).

EaSI

Beth yw hi?
Nod rhaglen EaSI yw:

- cefnogi cyflogaeth gynaliadwy o safon
- cefnogi amddiffyniad cymdeithasol digonol a phriodol
- trechu allgáu cymdeithasol a thlodi a gwella amodau gwaith

Pwy all ymgeisio?
Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (megis mentrau cymdeithasol, mudiadau dielw a mentrau bach a chanolig).

HAWLIAU, CYDRADDOLDEB A DINASYDDIAETH

Beth yw hi?
Nod y rhaglen yw:

- hyrwyddo egwyddorion dim gwahaniaethu
- trechu hiliaeth, senoffobia, homoffobia a mathau eraill o anoddefgarwch
- hyrwyddo hawliau pobl anabl
- hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod
- atal trais yn erbyn plant a grwpiau eraill sy'n agored i niwed

Beth mae'n ei ariannu?
Gweithgareddau hyfforddi, er enghraifft, cyfnewid staff, cyfnewid arferion da, gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth.

Pwy all ymgeisio?
Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (megis mentrau cymdeithasol, mudiadau dielw a mentrau bach a chanolig).

LIFE

Beth yw hi?
Mae rhaglen LIFE yn cefnogi effeithlonrwydd o ran adnoddau, byd natur, bioamrywiaeth a mesurau i leddfu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac i addasu iddynt.

Pwy all ymgeisio?
Sefydliadau addysg, awdurdodau lleol, mudiadau cyhoeddus neu breifat (megis mentrau cymdeithasol, mudiadau dielw a mentrau bach a chanolig).

GWYBODAETH BELLACH

Canran fechan o'r holl ffrydiau cyllido trawswladol sydd ar gael i fudiadau yng Nghymru yw'r rhaglenni a ddisgrifir yma. I gael gwybod beth arall sydd ar gael, ewch ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd (https://ec.europa.eu/info/funding-tenders_en) sy'n rhoi manylion rowndiau cyllido, gwybodaeth gefndirol ar bob rhaglen a sut i ymgeisio.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd

European Structural and Investment Funds